Dadansoddi ar gyfer Polisi
YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GSR
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH
Analysis for Policy
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL: 57/2023
DYDDIAD CYHOEDDI: 25/05/2023

# Agweddau'r Cyhoedd Tuag At Ddyfroedd Ymdrochi Mewndirol yng Nghymru

## Crynodeb Gweithredol

### 1. Cyflwyniad, nodau a methodoleg

1.1 Yn ei Rhaglen Lywodraethu 2021-26, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddechrau dynodi dyfroedd mewndirol ar gyfer hamdden trwy gryfhau gwaith monitro ansawdd dŵr i alluogi pobl i ymdrochi'n fwy diogel.

1.2 Mae dyfroedd mewndirol (neu safleoedd dŵr croyw) yn cyfeirio at safleoedd dŵr megis afonydd, llynnoedd a chronfeydd dŵr. Wrth sicrhau ansawdd da safleoedd dŵr mewndirol i ddiogelu iechyd pobl, y nod yw eu hannog i gynnal gweithgareddau hamdden yn y safleoedd hyn. Mae'n debygol y bydd mwy o ddefnydd hamdden o ddyfroedd mewndirol yn hybu iechyd corfforol ac iechyd meddwl y rhai sy'n cyfranogi, gan ategu nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i greu 'Cymru iachach' a 'Chymru â diwylliant bywiog' trwy gyfleoedd i wneud ymarfer corff.

1.3 Mae'r astudiaeth wedi'i bwriadu i ddeall yn well beth yw agweddau'r cyhoedd yng Nghymru tuag at ddyfroedd ymdrochi mewndirol yng Nghymru, ynghyd â'u dealltwriaeth amdanynt a'u hymgysylltiad â hwy. Bydd y canlyniadau hyn yn helpu i drefnu polisi cysylltiedig gan y llywodraeth, ac ymgysylltiad â'r cyhoedd, i helpu i gyflawni'r ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i ddechrau dynodi dyfroedd mewndirol ar gyfer hamdden. Dylai'r ymchwil hwyluso ymchwil ac addysg yn y dyfodol mewn perthynas ag ymdrochi mewn dyfroedd mewndirol hefyd.

1.4 Defnyddiodd yr arolwg Omnibws Cymru Beaufort. Fe arolygwyd sampl gynrychiolaidd o 1,000 o oedolion 16+ oed ledled Cymru gan ddefnyddio panel ar-lein, gyda'r gwaith maes yn cael ei wneud rhwng 19 Medi a 9 Hydref 2022. Defnyddiodd yr arolwg gwotâu i gael sampl a oedd wedi'i bwriadu i adlewyrchu poblogaeth Cymru ar ddemograffeg oedran, rhywedd, awdurdod lleol a dosbarth cymdeithasol.

## 2. Canfyddiadau allweddol

### Defnyddio dyfroedd mewndirol yng Nghymru at ddibenion hamdden

2.1 Mae’r arolwg yn dynodi bod ymgysylltiad y cyhoedd â dyfroedd ymdrochi mewndirol yng Nghymru’n weddol uchel ond ei fod yn is nag ymgysylltiad pobl â dyfroedd arfordirol. Roedd bron hanner y rhai a arolygwyd (45 y cant) wedi ymweld â dyfroedd mewndirol megis cronfeydd dŵr, llynnoedd neu afonydd ar gyfer diwrnod allan neu at ddibenion hamdden yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Roedd mwy o gyfranogwyr yn yr arolwg (bron i wyth ymhob deg – 78 y cant) wedi ymweld â dyfroedd arfordirol megis traethau at ddibenion hamdden yn yr un cyfnod.

2.2 Roedd y mwyafrif o ymwelwyr â dyfroedd mewndirol (78 y cant) wedi teithio yno mewn car. Roedd deuddeg y cant wedi cerdded, tra bo’r canrannau a ddefnyddiodd ddulliau teithio eraill yn isel iawn.

2.3 Mynegodd bron i chwech ymhob deg ymatebydd (59 y cant) ddiddordeb mewn o leiaf un gweithgaredd dŵr hamdden. Nofio oedd y gweithgaredd yr oedd gan y mwyaf o bobl ddiddordeb ynddo (44 y cant â diddordeb), tra bo gan 17 y cant ddiddordeb mewn padlfyrddio a cheufadu/ canŵio, 13 y cant mewn pysgota a 7 y cant mewn syrffio. Roedd pobl iau 16-34 oed yn fwy tebygol na grwpiau oedran eraill o fod â diddordeb ym mhob gweithgaredd dŵr hamdden. Roedd gan fwy o bobl ddiddordeb mewn padlfyrddio a cheufadu/ canŵio nag oedd wedi cymryd rhan yn y gweithgareddau hyn.

2.4 Roedd bron i chwech ymhob deg o’r rhai y cyfwelwyd â hwy (55 y cant) wedi cyfranogi mewn o leiaf un gweithgaredd dŵr hamdden yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf, gyda hynny’n codi i 74 y cant o’r rhai 16-34 oed. Roedd ychydig mwy o gyfranogwyr wedi cymryd rhan mewn gweithgaredd hamdden mewn lleoliad arfordirol (29 y cant) nag mewn safle dŵr croyw, h.y. dyfroedd mewndirol megis afonydd, llynnoedd a chronfeydd dŵr (26 y cant). Yn yr un modd, roedd mwy o bobl 16-34 oed (42 y cant) wedi cymryd rhan yn y gweithgareddau hyn mewn safle dŵr croyw.

2.5 Nofio oedd y gweithgaredd mwyaf poblogaidd o bell, gyda hynny wedi cael ei wneud gan 45 y cant o’r ymatebwyr yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Roedd nofio’n llawer mwy tebygol o fod wedi cael ei wneud ar lan y môr neu mewn pwll nofio dan do.

2.6 Roedd lefelau cyfranogi ar gyfer gweithgareddau dŵr hamdden heblaw nofio’n is o lawer – roedd 14 y cant wedi ceufadu/ canŵio, 12 y cant wedi pysgota ac 11 y cant wedi padlfyrddio. Fodd bynnag, roedd ceufadu/ canŵio, pysgota a phadlfyrddio i gyd yn fwy tebygol o fod wedi cael eu gwneud gan gyfranogwyr mewn safleoedd dŵr croyw nag yn y môr.

### Cymhellion dros ddewis nofio yn yr awyr agored

2.7 Roedd dau ddeg pedwar y cant o’r rhai a oedd wedi cyfranogi mewn nofio wedi gwneud hynny mewn lleoliad dŵr croyw, yn hytrach nag yn y môr. Pan fo’r nifer sy’n nofio mewn safleoedd dŵr croyw’n cael ei gyfrifo fel canran o gyfanswm y sampl o oedolion a arolygwyd, mae’n cyfateb i 10 y cant o’r ymatebwyr ar y cyfan. Pan ofynnwyd iddynt pam eu bod yn nofio yn yr awyr agored mewn afonydd, llynnoedd neu gronfeydd dŵr, y prif resymau a roddwyd (fel atebion testun agored) oedd lleoliad prydferth (a grybwyllwyd yn ddigymell gan 21 o’r 98 o gyfranogwyr yn y grŵp yma), er mwyn hwyl/ mwynhad ac i oeri mewn tywydd poeth (a grybwyllwyd gan 14 a 12 o 98 o gyfranogwyr yn y drefn honno).

2.8 Gofynnwyd hefyd i ymatebwyr a ddywedodd eu bod wedi nofio mewn safleoedd dŵr croyw ddewis o ystod o atebion rhagderfynedig ynglŷn â pham eu bod yn nofio mewn afonydd, llynnoedd a chronfeydd dŵr. Roeddent yn gallu dewis faint fynnent o resymau o'r rhestr a ddarparwyd a gallent ychwanegu atebion eraill hefyd. Roedd wyth deg dau o'r 98 o nofwyr mewn safleoedd dŵr croyw'n cytuno eu bod yn ei wneud er mwyn hwyl, tra bo 55 wedi dweud eu bod yn ei wneud i gael ymarfer corff a/ neu hyfforddiant a nifer tebyg (54 o ymatebwyr) wedi dweud eu bod yn ei wneud er mwyn eu hiechyd meddwl a'u lles.

2.9 Dywedodd 35 o'r 98 o nofwyr mewn safleoedd dŵr croyw eu bod yn nofio yn yr awyr agored mewn afonydd, llynnoedd neu gronfeydd dŵr yng Nghymru o leiaf unwaith y mis. Roedd 22 allan o 98 yn gwneud hynny bob rhyw ychydig fisoedd, roedd 31 allan o 98 yn ei wneud ychydig o weithiau'r flwyddyn, tra bo'r 10 a oedd yn weddill allan o 98 yn ei wneud yn llai aml.

**Rhwystrau i gyfranogi mewn gweithgareddau dŵr hamdden mewn safleoedd dŵr croyw**

2.10 Y rhwystrau allweddol i gymryd rhan mewn gweithgareddau dŵr hamdden mewn safleoedd dŵr croyw oedd pryderon ynghylch diogelwch ac ansawdd y dŵr. Pan ofynnwyd iddynt beth oedd yn atal pobl rhag cymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored mewn safleoedd dŵr croyw yn eu tyb hwy, fe wnaeth oddeutu hanner y rhai a arolygwyd ddewis pryderon ynghylch diogelwch a phryderon ynghylch ansawdd y dŵr o restr o rwystrau posibl (53 y cant a 49 y cant yn y drefn honno). Roedd tua phedwar ymhob deg o'r rhai a arolygwyd (44 y cant) yn teimlo y byddai cyfleusterau cyfyngedig mewn safleoedd dŵr croyw a diffyg gwybodaeth am argaeledd safleoedd addas yn atal pobl. Dim ond 10 y cant ar y cyfan oedd ddim yn teimlo bod unrhyw beth a fyddai'n atal pobl.

2.11 Roedd y farn wedi'i hollti ynglŷn â hyder yn ansawdd y dŵr mewn safleoedd dŵr croyw. Er bod tua thri ymhob deg o'r ymatebwyr (31 y cant) yn hyderus bod ansawdd y dŵr o safon uchel, nid oedd bron i ddau ymhob deg (19 y cant) yn hyderus. Nid oedd gan gyfran uchel (bron hanner – 49 y cant) unrhyw farn neu nid oeddent yn gallu ateb.

**Cefnogaeth i ddynodi safleoedd dŵr croyw mewndirol yn ddyfroedd ymdrochi / hamdden**

2.12 Mae'r astudiaeth yn dangos bod peth wmbredd o gefnogaeth i ddynodi safleoedd dŵr croyw mewndirol yn ddyfroedd ymdrochi/ hamdden. Roedd chwe deg pedwar y cant o'r rhai y cyfwelwyd â hwy'n cytuno y *byddent yn hoffi gweld safleoedd dŵr croyw mewnol fel afonydd, llynnoedd a chronfeydd dŵr yng Nghymru'n cael eu dynodi'n ddyfroedd ymdrochi/ hamdden*. Dim ond 5 y cant oedd yn anghytuno, tra nad oedd 21 y cant yn gallu mynegi barn. Pobl iau oedd fwyaf tebygol o fod o blaid eu dynodi.

2.13 Roedd ychydig dros un ymhob tri (35 y cant) o'r cyfranogwyr yn cytuno bod *dim digon o safleoedd dŵr croyw mewndirol sy'n addas ar gyfer ymdrochi/ defnydd hamdden yng Nghymru,* tua theirgwaith yn fwy na'r gyfran a oedd yn anghytuno (12 y cant). Roedd dros hanner y rhai y cyfwelwyd â hwy (52 y cant) yn ansicr neu'n methu ag ateb, serch hynny.

2.14 Y prif resymau digymell dros gefnogi dynodi safleoedd dŵr croyw mewndirol yn ddyfroedd ymdrochi/ hamdden oedd y byddai'n ei gwneud yn fwy diogel ymdrochi yno, y byddai'n gwella ansawdd y dŵr ac y byddai'n darparu mwy o leoedd i nofio (a grybwyllwyd gan 22 y cant, 15 y cant ac 14 y cant o'r rhai a oedd o blaid).

2.15 Y prif resymau dros wrthwynebu eu dynodi ymhlith y lleiafrif bychan a oedd yn erbyn y syniad oedd y gallai arwain at fewnlifiad o dyrfaoedd a fyddai'n difetha'r lleoedd hyn ac y gallai fod yn beryglus nofio yno (a grybwyllwyd gan 35 y cant a 29 y cant yn y grŵp yma yn y drefn honno).

2.16 Roedd bron hanner y rhai y cyfwelwyd â hwy (48 y cant) yn cytuno y *byddai diddordeb ganddynt mewn cael mynediad at ddata mewn amser real am safon ansawdd y dŵr mewn safleoedd dŵr croyw yng Nghymru*; dywedodd llai na dau ymhob deg (17 y cant) nad oedd diddordeb ganddynt.

2.17 O gael eu harwain â rhestr o gyfleusterau posibl a allai gael eu darparu mewn safleoedd dŵr croyw dynodedig, roedd y mwyaf o ddiddordeb mewn toiledau a chyfleusterau parcio ceir (a ddewiswyd gan 75 y cant a 70 y cant o gyfranogwyr). Fe hoffai tua chwech ymhob deg weld caffis/ lleoedd bwyta a chyfleusterau newid (sef 62 y cant a 59 y cant), tra hoffai bron hanner (47 y cant) weld cyfleusterau llogi ar gyfer gweithgareddau (e.e. i logi canŵs neu badlfyrddau). Mewn cyferbyniad, ni fyddai ar 9 y cant ar y cyfan eisiau gweld unrhyw gyfleusterau, gan y byddai'n well ganddynt i'r safleoedd aros yn gwbl naturiol. Roedd y gyfran hon yn codi i 15 y cant o nofwyr mewn safleoedd dŵr croyw (hynny yw, y rhai a oedd wedi nofio yn yr awyr agored mewn afonydd, llynnoedd neu gronfeydd dŵr yng Nghymru yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf).

Awdur yr Adroddiad
Fiona McAllister, Beaufort Research

Adroddiad Ymchwil Llawn: McAllister, F. (2023). Arolwg Dynodi Dyfroedd Ymdrochi Mewndirol yng Nghymru. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Rhif adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth 57/2023.
Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/dyfroedd-ymdrochi-mewndirol-yng-nghymru-agweddaur-cyhoedd

Safbwyntiau'r ymchwilydd yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid rhai Llywodraeth Cymru o anghenraid

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch ag:
Aimee Marks
Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru, Parc Cathays
Caerdydd, CF10 3NQ

E-bost: ymchwilhinsawddacamgylchedd@llyw.cymru

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80535-959-3